OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Blaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *13 Chwefror 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd digwyddiad ffilmio a gynhelir ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Blaenau Ffestiniog a Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Gwahardd Aros Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Chwefror 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994 (p. 11). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W.)

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A470 Trunk Road (Blaenau Ffestiniog and Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Waiting) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 February 2025* |
| *Coming into force* | *13 February 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited by reason of a filming event being held on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A470 Trunk Road (Blaenau Ffestiniog and Llan Ffestiniog, Gwynedd) (Temporary Prohibition of Waiting) Order 2025 and this Order comes into force on 13 February 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"event period" ("*cyfnod y digwyddiad*") means intermittent periods commencing at 09:00 hours on 13 February 2025 and ending when the temporary traffic signs for each event period are permanently removed;

(**1**) 1984 c. 27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994 (c. 11), section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad perthnasol ac am resymau diogelwch;

ystyr "cyfnod y digwyddiad" ("*event period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 13 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod y digwyddiad eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A470 Maentwrog i Fan i'r Dwyrain o Gonwy.

### Gwaharddiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros yn y gilfan neu ar ochrau darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**4.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Atal dros dro

**5.** Mae darpariaethau erthygl 5 o Orchymyn Cefnffordd yr A470 (Heol yr Eglwys, Stryd Fawr a Ffordd Manod, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2018(**1**) wedi eu hatal dros dro mewn cysylltiad â darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn drwy gydol cyfnod y digwyddiad.

### Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 7 niwrnod ar y mwyaf.

(**1**) O.S. 2018/595 (Cy. 112).

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means—

(i) any vehicle being used for police, fire or ambulance services purposes;

(ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;

(iii) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the relevant event;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A470 Maentwrog to East of Conwy trunk road.

### Prohibition

**3.** No person may, during the event period, cause or permit any vehicle to wait in the lay-by or on the sides of the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### Application

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Suspension

**5.** The provisions of article 5 of the A470 Trunk Road (Church Street, High Street and Manod Road, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 2018(**1**) are suspended in respect of the lengths of the trunk road specified in paragraphs 1 and 2 of the Schedule to this Order for the duration of the event period.

### Duration of this Order

**6.** The maximum duration of this Order is 7 days.

(**1**) S.I. 2018/595 (W. 112).

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Chwefror 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 12 February 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darn o'r gilfan gyferbyn ag ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Heol yr Eglwys a Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog sy'n ymestyn o bwynt 39 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd o'r enw Dolgarregddu hyd at bwynt 21 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd o'r enw Stryd Fawr sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhifau 34 a 35 Stryd Fawr hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Foty, Blaenau Ffestiniog.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd o'r enw Penybryn, Llan Ffestiniog, sy'n ymestyn o'r ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhifau 18 a 19 Penybryn hyd at y ffin rhwng yr eiddo o'r enw rhifau 8 a 10 Penybryn.

**SCHEDULE**

The length of the lay-by adjacent to the northern side of the trunk road known as Church Street and High Street, Blaenau Ffestiniog that extends from a point 39 metres west of the centre-point of its junction with the road known as Dolgarregddu to a point 21 metres west of the centre-point of that junction.

The length of the northern side of the trunk road known as High Street that extends from the boundary between the properties known as numbers 34 and 35 High Street to a point 20 metres west of the centre-point of its junction with Lord Street, Blaenau Ffestiniog.

The length of the southern side of the trunk road known as Penybryn, Llan Ffestiniog that extends from the boundary between the properties known as numbers 18 and 19 Penybryn to the boundary between the properties known as numbers 8 and 10 Penybryn.